OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 1710 (Cy.148)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2007

Wedi'u gwneud - -	*12 Mehefin 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*13 Mehefin 2007*
Yn dod i rym - -	*14 Mehefin 2007*

Mae Gweinidogion Cymru wedi'u dynodi (**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Gan arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan yr adran honno, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) (Diwygio) 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 14 Mehefin 2007.

Diwygio

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru)2007(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2 (Dehongli), yn y man priodol, mewnosoder—

"ystyr "cynnyrch cyfansawdd" ("*composite product*") yw bwyd a fwriedir i'w fwyta gan bobl sy'n cynnwys cynhyrchion wedi'u prosesu sy'n dod o anifeiliaid yn ogystal â chynhyrchion sy'n dod o blanhigion ac mae'n cynnwys y cynhyrchion hynny pan fo prosesu cynnyrch sylfaenol yn rhan gyfannol o gynhyrchu'r cynnyrch terfynol, ond nad yw'n cynnwys bwydydd sy'n cynnwys unrhyw gynnyrch llaeth sy'n deillio o wledydd heb eu rhestru yn Atodiad 1 i Benderfyniad y Comisiwn 2004/438/EC (sy'n gosod amodau iechyd anifeiliaid ac amodau iechyd y cyhoedd ac ardystiadau milfeddygol ar gyfer dod â llaeth wedi'i drin â gwres, cynhyrchion wedi'u seilio

(**1**) O.S. 2005/2766. Yn rhinwedd adrannau 59(1) a 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraffau 28 a 30 o Atodlen 11 iddi, mae swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan y dynodiad hwn i'w harfer gan Weinidogion Cymru.
(**2**) 1972 p. 68.
(**3**) O.S. 2007/376 (Cy.36).